# Ail gam rheoleiddio diogelwch ar-lein: Amddiffyn plant

Cais am dystiolaeth

**CAIS AM DYSTIOLAETH:**

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ionawr 2023

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 21 Mawrth 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 3

## Atodiadau

A1. Cwestiynau 9

A2. Ymateb i’r cais hwn am dystiolaeth 28

A3. Dalen gyflwyno ymateb 30

# 1. Trosolwg

1.1 Rydym yn paratoi i ymgymryd â rôl newydd fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein. Fel rhan o'r rôl hon, byddwn yn cyhoeddi codau ymarfer sy'n nodi'r camau y gall llwyfannau eu cymryd i ddiogelu plant ar-lein yn ogystal â chanllawiau ar sut dylai llwyfannau asesu risgiau o niwed i blant. Mae'r ddogfen hon yn gofyn am dystiolaeth ar risgiau o niwed i blant ar-lein a sut mae modd eu lliniaru. Yn ogystal â bod yn sail i'n gwaith llythrennedd yn y cyfryngau, byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i'n helpu i baratoi codau ymarfer ar amddiffyn plant a chanllawiau perthnasol am asesu risg.

**Pam mae Ofcom yn gwneud cais am dystiolaeth?**

- Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyhoeddi map ar gyfer rheoleiddio,[1] sy'n nodi ein cynllun ar gyfer rhoi rheoleiddio diogelwch ar-lein ar waith. Ochr yn ochr â'r map, fe wnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth ar gyfer y cam cyntaf o reoleiddio diogelwch ar-lein, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon.
- Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn canolbwyntio ar y materion rydyn ni'n disgwyl a fydd yn cael eu cynnwys yn ein hail ymgynghoriad. Rydyn ni'n disgwyl ei gyhoeddi yn hydref 2023, er mwyn **amddiffyn plant rhag cynnwys cyfreithlon sy'n niweidiol** iddyn nhw, fel y nodir yn fanylach yn ein map. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau drafft i helpu gwasanaethau i gydymffurfio â'u dyletswyddau asesu mynediad plant, canllawiau drafft ynghylch sut gall gwasanaethau y mae plant yn debygol o'u defnyddio gydymffurfio â'u dyletswyddau i gynnal asesiad risg ar gyfer plant a chodau ymarfer drafft sy'n egluro sut gall gwasanaethau gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag cynnwys niweidiol.
- Rydym yn croesawu ymatebion gan randdeiliaid sydd â diddordeb ac rydym yn rhagweld y bydd y cais hwn am dystiolaeth yn berthnasol i amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rheini sydd â diddordeb neu arbenigedd mewn amddiffyn plant ar-lein, gan gynnwys sefydliadau cymdeithas sifil a darparwyr gwasanaethau ar-lein. Bydd yr ymatebion yn ategu'r dystiolaeth a gasglwyd o'n cais cyntaf am dystiolaeth.
- Ni ddylai ymatebwyr deimlo bod angen ailadrodd atebion i gwestiynau yn y cais hwn am dystiolaeth, os wnaethon nhw ddarparu atebion i gwestiynau tebyg mewn ymateb i gam cyntaf y cais am dystiolaeth ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022. Ni fydd pob cwestiwn yn berthnasol i bob ymatebydd. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch pa gwestiynau i ymateb iddynt, edrychwch ar Atodiad 1.4.
- Bydd ein cais am dystiolaeth yn agored am **10 wythnos** ar ôl ei gyhoeddi ac rydym yn gofyn am ymatebion yn ôl erbyn **5pm ar 21 Mawrth 2023**. Rydym hefyd yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod hwn gyda'r bwriad o gynnal sesiynau ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023.

# Cefndir

1.2 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, ac mae'n goruchwylio sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau, y post, teledu a radio a ddarlledir. Rydym yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-lein sydd wedi'u sefydlu yn y DU, gan gynnwys rhaglenni ar-alw (ODPS) a llwyfannau rhannu fideos (VSPs). Yn unol â'n dyletswyddau statudol, mae gennym

[1] Gan fod y Bil yn dal i fynd drwy'r Senedd, nid yw'r amserlen a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn ein map yn derfynol. Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau gweithredu maes o law, gan adlewyrchu'r disgwyliadau diweddaraf ar yr adeg y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol.

raglen waith yn benodol ar gyfer hyrwyddo a chynnal ymchwil ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

1.3 Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer diogelwch ar-lein yn y DU. Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein dealltwriaeth o gyfleoedd a heriau rheoleiddio diogelwch ar-lein, meithrin ein gallu mewnol a dechrau cynllunio ar gyfer ein dull rheoleiddio. Ers mis Rhagfyr 2020, rydym wedi bod yn cael arian gan y Llywodraeth i ddatblygu a chryfhau ein gallu i baratoi ar gyfer y rôl newydd hon, gan gynnwys creu tîm Polisi Diogelwch Ar-lein newydd, swyddogaeth Technoleg Ymddiriedaeth a Diogelwch newydd, a thyfu ein timau Gorfodaeth, Cyfreithiol, Ymchwil a Dealltwriaeth, a Data.

1.4 Rydym wedi cael ein llywio gan ein profiad o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos (VSPs) o dan Ran 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.[2] Rydym hefyd yn parhau i feithrin cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau a rheoleiddwyr yn y DU (er enghraifft, drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol) ac mewn awdurdodaethau eraill, a chymryd rhan mewn sgyrsiau a fforymau byd-eang sy'n chwilio am atebion i broblemau diogelwch ar-lein.

1.5 Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein ('y Bil'), fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd,[3] yn mynnu bod gwasanaethau sy'n lletya cynnwys sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr a pheiriannau chwilio yn cyflwyno systemau a phrosesau ar gyfer diogelu unigolion rhag mathau penodol o niwed ar-lein

1.6 Mae'r drefn reoleiddio newydd wedi'i rhannu'n bedwar maes allweddol. Bydd gan bob un o'r meysydd hyn ofynion penodol ar wasanaethau, ac amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith. Y meysydd hyn yw:

a) mesurau i ddiogelu pobl rhag cynnwys anghyfreithlon;

b) mesurau i ddiogelu plant rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt;

c) mesurau i rymuso oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau 'Categori 1'[4] a sicrhau eglurder ynghylch yr hyn a ganiateir ar y gwasanaeth a bod eu telerau ac amodau'n cael eu gweithredu'n gyson; a

d) cynyddu tryloywder i'r cyhoedd ynghylch beth mae gwasanaethau wedi'u categoreiddio[5] yn ei wneud i fynd i'r afael â niwed ar-lein, pa fesurau maen nhw'n eu

[2] Fel y mae ar hyn o bryd, bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn diddymu'r drefn ar gyfer llwyfannau rhannu fideos yn y pen draw, er nad yw union ddyddiad y diddymiad wedi ei bennu eto. Bydd Ofcom yn darparu cymorth i wasanaethau a fydd, yn y pen draw, yn pontio rhwng y ddwy drefn.

[3] Ar hyn o bryd mae'r Bil ar ffurf adroddiad yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae fersiwn cyfunol diweddaraf y Bil, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2022, ar gael yma.

[4] Disgwylir mai'r rhain fydd y gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr gyda'r cyrhaeddiad uchaf ac y bydd ganddynt y nodweddion lle mae'r risg fwyaf.

[5] Yn ogystal â gwasanaethau Categori 1, mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau Categori 2A, ac mae'n debygol mai'r rhain yw'r gwasanaethau chwilio gyda'r cyrhaeddiad uchaf, a gwasanaethau Categori 2B, sy'n wasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr eraill sydd â swyddogaethau neu nodweddion a allai fod yn beryglus.

cymryd i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil, a pha mor effeithiol yw eu mesurau diogelwch.

1.7 At ddibenion y ddogfen hon, plentyn yw unrhyw un o dan 18 oed,[6] oni nodir yn wahanol. Mae'r dyletswyddau amddiffyn plant y cyfeirir atynt uchod yn cynnwys:

a) canfod a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth neu ran o'u gwasanaeth: i wneud hyn, bydd angen i wasanaethau gynnal 'asesiad o fynediad plant'.

b) ar gyfer yr holl wasanaethau y mae plant yn debygol o'u defnyddio, asesu risgiau o niwed i blant a defnyddio mesurau cymesur sy'n ymwneud â chynllun a gweithrediad y gwasanaeth i reoli a lliniaru'r risgiau a nodir yn effeithiol; a

c) cymryd camau penodol o dan y dyletswyddau diogelwch plant mewn perthynas â chynnwys 'prif flaenoriaeth' a 'blaenoriaeth' sy'n niweidiol i blant. Er enghraifft, rhaid i wasanaethau i ddefnyddwyr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur a gynlluniwyd i atal plant o unrhyw oed rhag dod ar draws cynnwys prif flaenoriaeth.

1.8 Bydd y dyletswyddau newydd yn berthnasol i ystod eang o wasanaethau chwilio a defnyddwyr i ddefnyddwyr, gyda chyrhaeddiad, meintiau a lefelau risg gwahanol. Er enghraifft, bydd gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n cael eu rheoleiddio yn cynnwys llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau rhannu fideos, fforymau, apiau negeseuon, rhai gemau ar-lein, storio yn y cwmwl a safleoedd sy'n lletya cynnwys pornograffig a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Mae rhagor o fanylion ynghylch cwmpas y drefn ar gael ym map Ofcom ar gyfer rheoleiddio.

1.9 Ar ben hynny, mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswyddau ar wahân ar ddarparwyr cynnwys pornograffig ar-lein. Yn benodol, mae'n rhaid iddynt sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig (fel y'i diffinnir yn y Bil) ar eu gwasanaeth, er enghraifft, drwy ddefnyddio proses dilysu oedran.

1.10 Ni fydd Ofcom yn cael unrhyw bwerau newydd nes bydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Mae rhagor o fanylion am ein cynllun ar gyfer ymgynghori a gweithredu ar gael yn ein map, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 ac a oedd yn adlewyrchu ein tybiaethau cynllunio ynghylch amseru gweithredu bryd hynny. Gan fod y Bil yn dal i fynd drwy'r Senedd, mae'r amserlenni a'r gofynion a nodir yn ein map yn parhau'n rhai dros dro, ac rydym yn disgwyl y gallwn gyhoeddi rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau gweithredu maes o law, gan adlewyrchu'r disgwyliadau diweddaraf o ran pryd y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

1.11 Fel yr esboniwyd yn ein map ar gyfer rheoleiddio, rydym yn bwriadu cyhoeddi dau ymgynghoriad yn 2023. Bydd y cyntaf yn canolbwyntio ar niwed anghyfreithlon ac rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei gyhoeddi ddiwedd y gwanwyn, yn amodol ar amseriad y Cydsyniad Brenhinol. Bydd yr ail ymgynghoriad yn canolbwyntio ar amddiffyn plant ac

[6] Fel y diffinnir ar hyn o bryd o dan Gymal 207 y Bil.

rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref, a bydd hefyd yn amodol ar amseriad y Cydsyniad Brenhinol ac unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol.

1.12 Ochr yn ochr â'n map ar gyfer rheoleiddio, ym mis Gorffennaf 2022 fe wnaethom hefyd gyhoeddi cais am dystiolaeth ar gyfer cam cyntaf rheoleiddio diogelwch ar-lein. Yn y cais cyntaf am dystiolaeth, gofynnom am safbwyntiau ar faterion rydyn ni'n disgwyl fydd yn cael eu cynnwys yn ein hymgynghoriad cyntaf yn 2023, gan gynnwys niwed anghyfreithlon i blant fel meithrin perthynas amhriodol a cham-drin plant yn rhywiol.

## Y cais hwn am dystiolaeth

1.13 Heddiw, rydym yn cyhoeddi ail gais am dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- canllawiau drafft ar sut y dylai gwasanaethau gynnal asesiad o fynediad gan blant;
- canllawiau drafft ar sut y dylai gwasanaethau y mae plant yn debygol o'u defnyddio gynnal asesiad risg i blant;
- canllawiau drafft ar sut gall gwasanaethau sy'n lletya cynnwys pornograffig ar-lein gydymffurfio â'u dyletswyddau i sicrhau na all plant gael gafael ar y cynnwys hwnnw fel arfer;
- codau ymarfer drafft sy'n egluro sut gall gwasanaethau gydymffurfio â'u dyletswyddau i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol.

1.14 Mae'r cwestiynau yn y cais am dystiolaeth heddiw felly'n canolbwyntio ar asesu mynediad plant at wasanaethau, y risg o niwed i blant o gynnwys cyfreithiol sy'n niweidiol iddyn nhw,[7] a mesurau y gellir eu cymryd i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol, er enghraifft safoni cynnwys a sicrhau a dilysu oedran. Mae'r cwestiynau rydym yn eu gofyn isod yn wahanol i'r rheini yn y cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd gennym yn ystod yr haf, a oedd yn canolbwyntio ar niwed anghyfreithlon. Fodd bynnag, os ydych eisoes wedi darparu tystiolaeth sy'n berthnasol i'r cwestiynau hyn mewn ymateb i'r cais cyntaf am dystiolaeth, nid oes angen i chi ddarparu'r un dystiolaeth am yr eildro yma.

1.15 Drwy'r cwestiynau a nodir yn Atodiad 1, rydym yn gofyn am dystiolaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid i gryfhau ein dealltwriaeth o'r ystod o ddulliau a thechnegau y gall llwyfannau eu defnyddio i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau diogelwch ar-lein o ran plant. Byddem yn croesawu tystiolaeth o effeithiolrwydd y mesurau y gellir eu rhoi ar waith i liniaru niwed, eu costau a pha mor ymarferol fyddai eu rhoi ar waith – a lle bo hynny'n berthnasol ystyried sut y gallai hyn amrywio yn dibynnu ar nodweddion y gwasanaeth.

1.16 Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed gan ddarparwyr y mae eu gwasanaethau'n debygol o ddod o dan gwmpas y fframwaith diogelwch ar-lein, yn ogystal â rheoleiddwyr, academyddion, sefydliadau cymdeithas sifil, cynrychiolwyr defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ac arbenigedd o ran diogelu plant.

[7] Gweler A.1.2 i A1.3 am ragor o wybodaeth am y rhestr ddangosol o'r flaenoriaeth gyntaf a niwed blaenoriaeth i blant.

1.17 Bydd unrhyw ymatebion yn ategu'r dystiolaeth a gasglwyd o'n cais cyntaf am dystiolaeth. Ni fydd pob cwestiwn yn berthnasol i bob ymatebydd. Am ragor o wybodaeth o ran pa gwestiynau i ymateb iddynt, gweler A.1.4.

1.18 Rydym yn rhagweld y bydd y dystiolaeth a ddarperir mewn ymateb i hyn yn werthfawr wrth baratoi adroddiadau a chynlluniau i'r dyfodol o dan ein pwerau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac, ar yr amod bod y Bil yn cael ei basio, bydd yn ddefnyddiol o ran llywio sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys llunio codau ymarfer a chanllawiau rheoleiddio a fydd yn nodi'r camau y gall cwmnïau eu cymryd i gydymffurfio â'u dyletswyddau amddiffyn plant o dan y Bil. Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn un rhan o'n paratoadau ar gyfer ysgwyddo ein dyletswyddau newydd, ochr yn ochr â rhaglen ymchwil ehangach ac ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid.

1.19 Gan ein bod yn edrych ar y ffyrdd y gall gwasanaethau gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil, sydd eto i'w gymeradwyo gan y Senedd, ni ddylid ystyried y ddogfen hon na'n cwestiynau yn arwydd na'n ddatganiad o fwriad y polisi, ond yn hytrach yn gyfle i randdeiliaid gyfrannu.

## Y camau nesaf

1.20 Bydd ein cais am dystiolaeth yn agored am **10 wythnos** ar ôl ei gyhoeddi ac rydym yn gofyn am ymatebion yn ôl erbyn **5pm ar 12 Mawrth 2022**.

1.21 Rydym yn credu y bydd cymhlethdod a newyddwch y drefn reoleiddio newydd hon yn elwa o ymgysylltu'n agos ag amrywiaeth o randdeiliaid. Y cais hwn am dystiolaeth ydy ein hail gyfle allweddol i wneud hyn cyn ein hymgynghoriadau yn 2023, ac edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu'n agos wrth i ni ddatblygu ein polisïau a'n cynlluniau.

# A1. Cwestiynau

A1.1 Yn unol â'r cynllun sydd wedi'i nodi ar ein map, bydd ail gam ein gwaith yn canolbwyntio'n helaeth ar y dyletswyddau sy'n ymwneud â diogelu plant rhag niwed. Pan fyddwn yn cyfeirio at 'gynnwys cyfreithlon sy'n niweidiol i blant' neu 'gynnwys sy'n niweidiol i blant'[8] yn y cwestiynau isod, rydym yn golygu cynnwys 'prif flaenoriaeth' a 'blaenoriaeth' sy'n niweidiol i blant a fydd yn cael ei ddiffinio mewn is-ddeddfwriaeth, a chynnwys heb ei ddynodi sy'n niweidiol i blant.

A1.2 Mewn perthynas â chynnwys 'prif flaenoriaeth', bydd dyletswydd ar wasanaethau chwilio a defnyddwyr sy'n cael eu rheoleiddio i weithredu'r gwasanaeth gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u dylunio i atal plant o unrhyw oed rhag dod ar draws cynnwys o'r fath, drwy'r gwasanaeth. Ym mis Gorffennaf 2022 cyhoeddodd y Llywodraeth Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig,[9] a oedd yn nodi rhestr ddangosol o'r mathau o gynnwys yr oedd yn disgwyl iddynt gael eu rhestru fel 'prif flaenoriaeth' a 'cynnwys â blaenoriaeth' sy'n niweidiol i blant, yn amodol ar ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid a Seneddwyr, yn ogystal ag ymgynghori ag Ofcom. Dyma'r categorïau dangosol o gynnwys 'prif flaenoriaeth':

- **pornograffi;**
- **cynnwys sy'n hyrwyddo hunan-niweidio (gyda rhywfaint o gynnwys y gellir ei ddynodi'n gynnwys â blaenoriaeth, e.e. cynnwys sy'n canolbwyntio ar adfer o hunan-niwed);**
- **cynnwys sy'n hyrwyddo anhwylderau bwyta (gyda rhywfaint o gynnwys y gellir ei ddynodi'n gynnwys â blaenoriaeth, e.e. cynnwys sy'n canolbwyntio ar wella o anhwylderau bwyta); a**
- **cynnwys hunanladdiad cyfreithlon (gyda rhywfaint o gynnwys y gellir ei ddynodi'n gynnwys â blaenoriaeth, e.e. cynnwys sy'n canolbwyntio ar adfer).**

A1.3 Mewn perthynas â chynnwys â 'blaenoriaeth', bydd dyletswydd ar wasanaethau chwilio a defnyddwyr sy'n cael eu rheoleiddio i weithredu'r gwasanaeth gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u dylunio i warchod plant mewn grwpiau oedran yr ystyrir sydd mewn perygl o niwed rhag dod ar draws cynnwys o'r fath, drwy'r gwasanaeth (yn ogystal â chynnwys heb ei ddynodi a nodir yn eu hasesiadau risg). Dyma'r categorïau dangosol o gynnwys niweidiol 'blaenoriaeth':

- **camdriniaeth ar-lein, seiberfwlio ac aflonyddu ar-lein;**
- **cynnwys iechyd niweidiol (gan gynnwys camwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol am iechyd a brechlynnau); a**
- **cynnwys sy'n dangos neu'n annog trais.**

[8] Ystyr "cynnwys sy'n niweidiol i blant" yw – (a) cynnwys prif flaenoriaeth sy'n niweidiol i blant, (b) cynnwys â blaenoriaeth sy'n niweidiol i blant, neu (c) cynnwys, nid o fewn paragraff (a) neu (b), o fath sy'n peri risg sylweddol o niwed sylweddol i nifer arwyddocaol o blant yn y Deyrnas Unedig.

[9] https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2022-07-07/hcws194.

A1.4 Rhennir ein cwestiynau yn adrannau, gyda phob un yn ymwneud â meysydd sy'n berthnasol i elfennau o'r fframwaith rheoleiddio newydd a gynigir gan y Bil. Rydym yn rhagweld y bydd y cwestiynau hyn yn berthnasol i amrywiaeth eang o randdeiliaid ac felly nid ydym yn mynd i'r afael â chwestiynau i ymatebwyr penodol. O dan bob cwestiwn, rydym wedi nodi awgrymiadau i ymhelaethu ar y meysydd y mae gennym ddiddordeb arbennig ynddynt. Nid oes yn rhaid i chi ymateb i bob cwestiwn neu awgrym. Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ymatebion; atebion rhesymegol sy'n cynnwys tystiolaeth glir fyddai'n fwyaf gwerthfawr er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r cwestiynau isod.

A1.5 Ein trefn arferol yw cyhoeddi fersiynau heb fod yn gyfrinachol o'r ymatebion ar ein gwefan. Felly, dylech nodi a yw eich ymateb neu ran ohono yn gyfrinachol, lle bo hynny'n berthnasol. Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Trowch at Atodiad 2 i gael rhagor o gyfarwyddiadau ynghylch cyflwyno ymateb.

A1.6 Os ydych chi'n fusnes, yn sefydliad neu'n grŵp ag arbenigedd a thystiolaeth berthnasol yn gysylltiedig â'r cwestiynau isod, ac yn dymuno cysylltu â ni ynglŷn â'r cais hwn am dystiolaeth, cysylltwch â OS-CFE@ofcom.org.uk.

## Cwestiwn rhagarweiniol

A1.7 Mae ein cwestiwn cyntaf yn gofyn i ymatebwyr am wybodaeth amdanyn nhw eu hunain er mwyn i ni allu categoreiddio ymatebion i gwestiynau diweddarach. Gweler adran A2 i gael gwybodaeth am gyfrinachedd.

A1.8 Mae'r Bil yn berthnasol i ystod eang o 'wasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr', a ddiffinnir fel 'gwasanaeth rhyngrwyd lle bydd cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n uniongyrchol ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, neu'n cael ei lwytho i fyny neu ei rannu ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, yn gallu cael ei weld gan ddefnyddiwr arall, neu ddefnyddwyr eraill, y gwasanaeth'. Bydd hefyd yn berthnasol i wasanaethau chwilio, a ddiffinnir fel 'gwasanaeth rhyngrwyd sy'n beiriant chwilio, neu sy'n cynnwys peiriant chwilio'. Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswyddau ar rai darparwyr eraill o gynnwys pornograffig ar-lein nad yw'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr. Bydd dyletswyddau newydd ar gyfer unrhyw wasanaeth sydd â nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn y DU neu sydd wedi'i dargedu at farchnad y DU, a rhaid i'r rhain gydymffurfio â'r gyfraith newydd.

**C1. I'n helpu ni i gategoreiddio ymatebion, rhowch ddisgrifiad o'ch sefydliad, gwasanaeth neu ddiddordeb mewn amddiffyn plant ar-lein.**

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein, rhowch wybodaeth am y canlynol:

- Y math o wasanaeth a swyddogaethau[10] a ddarperir gennych;
- nifer y defnyddwyr ar draws y byd, ac yn y DU (gan gynnwys plant a'u hoedran);
- refeniw ar draws y byd ac yn y DU; a
- modelau eich busnes a'r refeniw a gynhyrchir.

Nodwch a yw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol.

## Mynediad plant at wasanaethau

A1.9 Bydd yn ofynnol i bob gwasanaeth defnyddwyr i ddefnyddwyr a gwasanaeth chwilio sydd o fewn y cwmpas gynnal asesiad o fynediad plant er mwyn penderfynu a ddylid eu trin fel rhai 'tebygol o gael eu defnyddio gan blant'. Rhaid i wasanaethau benderfynu (a) a oes modd i blant gael mynediad at y gwasanaeth neu ran o'r gwasanaeth, ac (b) os oes modd i blant gael mynediad at y gwasanaeth neu ran o'r gwasanaeth, a yw'r amod ar gyfer y defnyddiwr sy'n blentyn yn cael ei fodloni. Bydd yr amod defnyddiwr sy'n blentyn yn cael ei fodloni os oes nifer sylweddol o blant yn defnyddio'r gwasanaeth neu'r rhan honno ohono, neu os yw'r gwasanaeth, neu'r rhan honno ohono, o fath sy'n debygol o ddenu nifer sylweddol o ddefnyddwyr sy'n blant. Bydd angen i wasanaethau sy'n cael eu trin fel rhai sy'n 'debygol o gael eu defnyddio gan blant' gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch plant dan y Bil.

A1.10 Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn datgan mai'r *'unig ffordd y gall darparwyr ddod i'r casgliad nad yw'n bosibl i blant gael mynediad at wasanaeth, neu ran ohono, yw os oes systemau neu brosesau ar waith – er enghraifft, prosesau dilysu oedran, neu ffordd arall o sicrhau oedran – sy'n sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu cael mynediad at wasanaeth neu ran ohono'.* Gall defnyddio dulliau sicrhau neu ddilysu oedran fod yn un ffordd y gallai darparwyr geisio cyflawni eu dyletswyddau diogelwch plant, a amlinellir yn 1.7 yn enwedig mewn perthynas

[10] O fewn y Bil, mae 'swyddogaethau' gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr yn cynnwys: creu proffil defnyddwyr, gan gynnwys proffil dienw neu ffugenwol; chwilio o fewn y gwasanaeth am gynnwys sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr neu ddefnyddwyr eraill; anfon cynnwys ymlaen neu rannu cynnwys â defnyddwyr eraill y gwasanaeth; rhannu cynnwys ar wasanaethau rhyngrwyd eraill; anfon negeseuon uniongyrchol at ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth, neu siarad â nhw, neu ryngweithio â nhw mewn ffordd arall (er enghraifft drwy chwarae gêm); mynegi barn ynghylch cynnwys, gan gynnwys, er enghraifft, drwy bwyso botwm "hoffi" neu "ddim yn hoffi" neu unrhyw fotwm arall tebyg, defnyddio emoji neu symbol o unrhyw fath, manteisio ar gyfleoedd i bleidleisio ie/na neu sgorio cynnwys mewn unrhyw ffordd (gan gynnwys rhoi seren neu sgôr rhifol); rhannu gwybodaeth am leoliad presennol neu hanesyddol gyda defnyddwyr eraill y gwasanaeth, cofnodi symudiadau defnyddiwr, neu ganfod pa ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth sydd gerllaw; dilyn neu danysgrifio i fathau penodol o gynnwys neu ddefnyddwyr penodol y gwasanaeth; creu rhestrau, casgliadau, archifau neu gyfeiriaduron o gynnwys neu ddefnyddwyr y gwasanaeth; tagio neu labelu cynnwys sydd ar y gwasanaeth; llwytho cynnwys i fyny sy'n ymwneud â nwyddau neu wasanaethau; defnyddio neu newid gosodiadau ar y gwasanaeth sy'n effeithio ar y ffordd mae cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr yn cael ei gyflwyno ar y gwasanaeth; cael mynediad at wasanaethau rhyngrwyd eraill drwy'r cynnwys sydd ar y gwasanaeth (er enghraifft, drwy hyperddolenni). Mae 'swyddogaethau' gwasanaethau chwilio yn cynnwys: nodwedd sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau neu gronfeydd data; a nodwedd sy'n cynnig awgrymiadau yn ymwneud â cheisiadau chwilio defnyddwyr (swyddogaeth chwilio rhagfynegol).

â chynnwys prif flaenoriaeth. Fel y nodir uchod, byddwn yn cyhoeddi canllawiau i wasanaethau ar sut y gallant gydymffurfio â'u dyletswyddau i gynnal asesiad o fynediad plant.

**C2. Allwch chi nodi ffactorau a allai awgrymu bod gwasanaeth yn debygol o ddenu defnyddwyr sy'n blant?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- y mathau o wasanaethau sy'n debygol o ddenu defnyddwyr sy'n blant;
- unrhyw swyddogaethau neu nodweddion eraill gwasanaeth sy'n arbennig o debygol o ddenu defnyddwyr sy'n blant;
- y math o gynnwys sy'n debygol o ddenu defnyddwyr sy'n blant;
- a yw'r ffactorau rydych chi wedi'u nodi yn wahanol yn dibynnu ar oedran plentyn sy'n ei ddefnyddio, ac ym mha ffordd; a
- a oes unrhyw batrymau amlwg yng ngweithgarwch defnyddwyr sy'n blant.

Lle bo'n bosibl, nodwch a yw'r dystiolaeth hon yn berthnasol i ddefnyddwyr sy'n blant yn y DU neu'n fyd-eang.

**C3. Pa wybodaeth sydd gan wasanaethau am oedran defnyddwyr ar wahanol lwyfannau (gan gynnwys plant)?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- y dulliau a ddefnyddir i gasglu unrhyw wybodaeth a all helpu i amcangyfrif neu sicrhau oedran defnyddiwr, naill ai pan fydd defnyddiwr yn defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf neu wedi hynny;
- pa fecanweithiau, os o gwbl, sydd ar gael i alluogi gwasanaethau i nodi plant mewn gwahanol grwpiau oedran (er enghraifft plant dan 13 oed, 13-15 oed, neu 15-17 oed); a
- sut mae dulliau o asesu oedran defnyddwyr yn esblygu.

**C4. Sut y gall gwasanaethau sicrhau nad oes modd i blant gael mynediad at wasanaeth, neu ran ohono?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- sut mae polisïau sicrhau oedran wedi cael eu datblygu hyd yma a pha grŵp(iau) oedran y bwriedir iddynt eu diogelu;
- os yw’r gwasanaeth wedi’i deilwra i fodloni anghenion sy’n briodol i oedran (er enghraifft, drwy gyfyngu cynnwys penodol i ddefnyddwyr penodol neu ran o wasanaeth), sut mae hyn yn gweithio neu sut y gallai weithio;
- sut mae effeithiolrwydd polisïau sicrhau oedran yn cael ei fonitro neu sut y gellid ei fonitro; a
- sut gall gwasanaethau nodi defnyddwyr nad ydynt yn cwrdd ag unrhyw gyfyngiadau oed perthnasol, a sut byddant yn mynd i’r afael â hyn yn briodol?

A1.11 Gallai technolegau dilysu oedran a sicrhau oedran fod yn enghraifft o fath o system neu broses i amddiffyn plant rhag cynnwys niweidiol. Yn y cais cyntaf am dystiolaeth, a oedd yn canolbwyntio ar niwed anghyfreithlon, gofynnom gwestiwn am gost ac effeithiolrwydd dulliau sicrhau oedran a dilysu oedran neu dechnolegau cysylltiedig. Os oes gennych dystiolaeth sy’n berthnasol i’r cwestiwn hwn na ddarparwyd gennych mewn ymateb i’r cais cyntaf am dystiolaeth, er enghraifft tystiolaeth sy’n ymwneud yn benodol ag amddiffyn plant, a wnewch chi ddarparu hyn.

**C5. Pa fesurau i sicrhau oedran a dilysu oedran neu dechnolegau cysylltiedig sydd ar gael ar hyn o bryd i lwyfannau i amddiffyn plant rhag cynnwys niweidiol, a beth yw eu heffaith a chost eu defnyddio?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- sut gellir asesu'r technolegau hyn o ran eu heffeithiolrwydd neu eu heffaith ar ddiogelwch defnyddwyr;
- pa mor gywir yw'r technolegau hyn o ran dilysu oedran defnyddwyr, a yw'r cywirdeb yn amrywio ar sail nodweddion unrhyw ddefnyddwyr, a pha mor effeithiol ydynt o ran atal plant rhag cael gafael ar gynnwys niweidiol;
- unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl o weithredu sicrwydd oed (fel risg o ragfarn neu allgáu), a sut y gellir lliniaru'r rhain;
- mesurau diogelu sy'n angenrheidiol i sicrhau y diogelir preifatrwydd defnyddwyr a mynediad at wybodaeth, ac yr osgoir cyfyngu'n ormodol;
- pa ddulliau o sicrhau oedran sydd orau gan ddefnyddwyr, pan gynigir nifer o ffyrdd iddynt o wirio eu hoedran;
- cost cyflwyno a gweithredu technolegau o'r fath;
- sut y gellid trechu'r broses o sicrhau oedran a dilysu oedran neu dechnolegau cysylltiedig; a
- pa fesurau lliniaru sy'n bodoli i leihau nifer y defnyddwyr sy'n trechu'r system.

## Cynnwys sy'n niweidiol i blant

A1.12 Bydd cynnwys prif flaenoriaeth a chynnwys blaenoriaeth sy'n niweidiol i blant yn cael ei ddiffinio mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Mae paragraffau A1.2 i A1.3 y cais hwn am dystiolaeth yn nodi rhestr ddangosol y Llywodraeth o gynnwys 'prif flaenoriaeth' a 'blaenoriaeth' sy'n niweidiol i blant fel y cyhoeddwyd yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2022.

**C6. Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â phresenoldeb cynnwys sy'n niweidiol i blant ar wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr?**

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed tystiolaeth am bresenoldeb cynnwys o'r fath, a faint ohonno sydd ar gael, ar wasanaethau o fathau penodol neu ar wasanaethau chwilio a defnyddwyr i ddefnyddwyr yn gyffredinol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys canfyddiadau ymchwiliadau perthnasol, adroddiadau tryloywder a phapurau ymchwil sy'n dangos sut gallai cynnwys o'r fath amrywio ar draws gwahanol wasanaethau neu fathau o wasanaeth, neu ar draws gwasanaethau gyda grwpiau penodol o ddefnyddwyr, nodweddion neu swyddogaethau.

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- pa grwpiau o blant neu blant o ba oed, os o gwbl, sy'n fwy tebygol o ddod ar draws cynnwys sy'n niweidiol i blant;
- pa mor gyffredin yw cynnwys prif flaenoriaeth ar wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr;
- pa mor gyffredin yw cynnwys â blaenoriaeth ar wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr; a
- y mathau o wasanaethau mae plant yn fwyaf tebygol o ddod ar draws gwahanol fathau o gynnwys niweidiol arnynt.

**C7. Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud ag effaith cael gafael ar gynnwys sy'n niweidiol ar y plant?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- effaith y niwed ar blant sydd wedi dod ar draws cynnwys prif flaenoriaeth;
- effaith y niwed ar blant sydd wedi dod ar draws cynnwys â blaenoriaeth;
- unrhyw risgiau penodol y gallai plant ddod ar eu traws ar wasanaethau chwilio sy'n gysylltiedig â chynnwys niweidiol; ac
- unrhyw wahaniaethau yn effaith cynnwys â blaenoriaeth ar blant mewn gwahanol grwpiau oedran.

## Asesu a rheoli risg

A1.13 Bydd asesu a rheoli risg yn un o gonglfeini'r drefn ac mae'n un o ofynion craidd y Bil. Mae'r Bil yn nodi'r ddyletswydd ar Ofcom i gynnal asesiad risg i ganfod ac asesu risgiau o niwed i blant, mewn grwpiau oedran gwahanol, o gynnwys sy'n niweidiol i blant a gyflwynir gan wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr. Ymysg pethau eraill, rhaid i'r asesiadau risg nodi nodweddion gwahanol fathau o wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n berthnasol i gynnwys sy'n niweidiol i blant, ac asesu effeithiau'r mathau hynny o nodweddion ar y risg benodol hon. Rhaid i Ofcom ddatblygu 'proffiliau risg' ar gyfer gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i

ddefnyddwyr sy’n ymwneud â’r risg o niwed. Rhaid i Ofcom hefyd gyhoeddi ei asesiad risg (mewn cofrestr risgiau) a phroffiliau risg, a sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru.

A1.14 Rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir i’w helpu i gydymffurfio â’u dyletswyddau i gynnal eu hasesiadau risg eu hunain. Wrth gynnal eu hasesiadau risg, mae’n rhaid i wasanaethau ystyried y proffiliau risg y mae Ofcom wedi’u paratoi sy’n ymwneud â’r risg o niwed i blant.

**C8. Ar hyn o bryd, sut mae gwasanaethau’n asesu’r risg o niwed i blant yn y DU o gynnwys sy’n niweidiol iddynt?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- sut mae risgiau o gynnwys niweidiol yn cael eu nodi (gan gynnwys unrhyw brosesau, polisïau a dogfennau mewnol perthnasol); a
- wrth ystyried y risg bosibl y gallai plant ddod ar draws cynnwys niweidiol, i ba raddau y mae gwasanaethau’n ystyried tystiolaeth o ymddygiad ac oedran defnyddwyr.

**C9. Beth yw’r ffactorau risg sy’n gwaethygu y mae gwasanaethau’n eu hystyried neu y dylent eu hystyried a allai effeithio ar y risg o niwed i blant yn y DU?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth o:

- sut y gall sylfaen defnyddwyr y gwasanaeth effeithio ar y risg o niwed i blant;
- sut y gallai model busnes y gwasanaeth effeithio ar y risg o niwed i blant;
- swyddogaethau neu nodweddion gwasanaethau a allai gael effaith ar y risg o niwed i blant; a
- pa fesurau lliniaru sy'n bodoli ar gyfer y ffactorau risg hyn.

**C10. Beth yw'r strwythurau llywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau ar gyfer diogelwch defnyddwyr sy'n blant a diogelwch y llwyfan?**

Fel rhan o'ch ateb, a fyddech cystal ag amlinellu sut gallai timau gwahanol ystyried risgiau i ddiogelwch defnyddwyr sy'n blant ar draws gwahanol swyddogaethau busnes fel datblygu cynnyrch, rheolaeth, peirianneg, polisi cyhoeddus, diogelwch, cyfreithiol, datblygu busnes a marchnata.

Dylech ystyried:

- sut mae staff yn cael eu hyfforddi mewn gwasanaeth, a sut ddylent gael eu hyfforddi, i ddeall sut y gallai eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain greu risgiau i ddiogelwch defnyddwyr sy'n blant;
- sut gall gwasanaethau sicrhau cysondeb wrth ystyried diogelwch defnyddwyr ar draws y timau;
- enghreifftiau o arferion gorau neu ddulliau arloesol o lywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau; a
- costau posibl sy'n gysylltiedig ag asesu risgiau o niwed i ddefnyddwyr sy'n blant, gan gynnwys cyfeiriad penodol at gostau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod gan wasanaethau brosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu ar gyfer diogelu defnyddwyr sy'n blant lle bo hynny'n berthnasol.

## Telerau gwasanaeth a datganiadau polisi

A1.15 Mae'r Bil yn gosod nifer o ddisgwyliadau ynghylch telerau gwasanaeth y gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n cael eu rheoleiddio. Disgwylir i'r telerau gwasanaeth fod yn glir ac yn hygyrch i ddefnyddwyr, ac iddyn nhw gael eu defnyddio'n gyson. Bydd yn ofynnol i wasanaethau chwilio amlinellu darpariaethau tebyg mewn datganiadau polisi cyhoeddus.

**C11. Beth all darparwyr gwasanaethau ar-lein ei wneud i wella eglurder a hygyrchedd telerau gwasanaeth a datganiadau polisi cyhoeddus ar gyfer plant (gan gynnwys plant o wahanol oedrannau)?**

Cyflwynwch dystiolaeth i ddangos pa ddulliau sy'n gwneud y telerau neu'r polisïau'n glir ac yn hygyrch i blant.

**C12. Sut mae telerau gwasanaeth neu ddatganiadau polisi cyhoeddus yn trin cynnwys niweidiol 'prif flaenoriaeth' a 'blaenoriaeth'?**[11]

Amlinellwch y canlynol fel rhan o'ch ateb:

- yr hyn mae gwasanaethau'n eu cynnwys ar hyn o bryd yn eu dogfennau polisi cyhoeddus a thelerau gwasanaeth yng nghyswllt cynnwys niweidiol prif flaenoriaeth a blaenoriaeth a pham, gan gynnwys unrhyw gyfeiriad at yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gynnwys niweidiol, unrhyw fesurau i'w ganfod, a sancsiynau a roddir ar ddefnyddwyr sy'n torri'r rheolau;
- a yw anghenion penodol plant yn cael eu hystyried wrth ddrafftio'r dogfennau hyn;
- tystiolaeth o'r broses, yr amser ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datblygu'r telerau hyn; ac
- a oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'r ffordd mae defnyddwyr sy'n blant yn ymgysylltu â thelerau gwasanaeth neu ddatganiadau polisi cyhoeddus, neu a yw plant yn deall beth maent yn eu golygu'n ymarferol.

## Adrodd a chwynion

A1.16 O dan y Bil, bydd yn rhaid i wasanaethau chwilio a gasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n cael eu rheoleiddio ac sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant weithredu systemau a phrosesau ar gyfer riportio cynnwys sy'n niweidiol i blant.

A1.17 O dan y Bil, bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio roi **gweithdrefnau cwyno** ar waith hefyd fel bod modd i ddefnyddwyr a phobl yr effeithir arnyn nhw[12] gwyno am gynnwys sy'n niweidiol yn eu barn nhw; neu os ydyn nhw'n credu nad yw'r darparwr yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau, neu fod eu cynnwys wedi'i ddileu neu fod y gallu i ddefnyddio'r gwasanaeth wedi cael ei gyfyngu'n ormodol.

A1.18 Bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant hefyd alluogi defnyddwyr i gwyno os nad ydynt yn gallu cael gafael ar gynnwys oherwydd bod mesurau a ddefnyddir i gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch plant (er enghraifft, sicrhau oedran) wedi arwain at asesiad anghywir o oedran y defnyddiwr.

A1.19 Mae'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar ddulliau adrodd a chwynion ar gyfer plant. Os ydych chi'n ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi darparu'r holl wybodaeth sydd gennych am adrodd a chwynion mewn atebion i'r cwestiynau hyn yn ein cais cyntaf am dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, ewch ymlaen i'r adran nesaf. Os wnaethoch chi ymateb i'r cais cyntaf am dystiolaeth ond y gallech chi

[11] Gweler A1.2 i A1.3 am ragor o wybodaeth am y rhestr ddangosol o niwed i blant.
[12] Ar hyn o bryd, diffiniad y Bil o "berson yr effeithir arno" yw person, ar wahân i ddefnyddiwr y gwasanaeth dan sylw, sydd yn y Deyrnas Unedig ac sydd— (a) yn amodol ar y cynnwys, (b) yn aelod o ddosbarth neu grŵp o bobl sydd â nodwedd benodol sydd wedi'i thargedu gan y cynnwys, (c) yn rhiant i, neu'n oedolyn arall sydd â chyfrifoldeb dros, blentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n destun y cynnwys, neu (d) yn oedolyn sy'n darparu cymorth i ddefnyddio'r gwasanaeth i oedolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu'n destun y cynnwys hwnnw.

ddarparu gwybodaeth ychwanegol sy’n berthnasol i amddiffyn plant, atebwch yr adran hon os gwelwch yn dda.

**C13. Beth all darparwyr gwasanaethau ar-lein ei wneud i wella mynediad plant at fecanweithiau rhoi gwybod a chwyno, a’u hymwybyddiaeth ohonynt?**

Cyflwynwch dystiolaeth i ddangos pa nodweddion sy’n gwneud y systemau rhoi gwybod a chwyno i ddefnyddwyr yn hygyrch i blant, gan ystyried y canlynol:

- llwybrau adrodd neu gwyno ar gyfer defnyddwyr sydd wedi’u cofrestru a rhai nad ydynt wedi cofrestru;
- sut gallai gwasanaethau annog plant i roi gwybod am gynnwys;
- sut i sicrhau nad yw mecanweithiau cwyno neu roi gwybod yn cael eu camddefnyddio;
- y dewisiadau a’r ffactorau allweddol sy’n gysylltiedig â chynllunio’r mecanweithiau hyn;
- sut i sicrhau bod y mecanweithiau adrodd a chwynion yn hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch i blant;
- pa un a oes ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i wahanol anghenion plant sy’n ddefnyddwyr, er enghraifft plant o wahanol oedrannau;
- a yw adroddiadau defnyddwyr yn ddienw i’r gwasanaeth;
- a yw defnyddwyr yn cael gwybod bod eu hadroddiadau’n ddienw i ddefnyddwyr eraill; a
- beth sy’n digwydd i ddefnyddwyr os ceir adroddiad am eu cynnwys neu eu cyfrif.

**C14. Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth am yr arferion gorau ar gyfer systemau cywir ar gyfer cwyno a/neu roi gwybod am gynnwys cyfreithlon sy'n niweidiol i blant, neu ddefnyddwyr sy'n postio'r cynnwys hwn, a sut mae'r prosesau hyn yn cael eu dylunio a'u cynnal?**

Mae gennym ddiddordeb mewn cael tystiolaeth o'r canlynol:

- sut mae defnyddwyr, gan gynnwys plant, yn rhoi gwybod am gynnwys niweidiol ar wasanaethau (gan gynnwys lleoliad ac amlygrwydd y mecanweithiau i ddefnyddwyr, ac unrhyw gipluniau y gallech eu darparu) ac a yw hyn ar wahân i'ch trefn gwyno, neu a ddylai fod ar wahân;
- a oes angen i ddefnyddwyr greu cyfrifon i gael mynediad at fecanweithiau adrodd a chwynion;
- pa fath o gynnwys neu ymddygiad y gall defnyddwyr a'r rhai sydd ddim yn defnyddio'r gwasanaeth wneud cwyn neu adrodd amdano, gan gynnwys unrhyw restrau neu gategorïau penodol;
- a yw mecanweithiau adrodd a chwyno yn effeithiol, o ran nodi cynnwys sy'n niweidiol i blant, a sut i benderfynu ar eu heffeithiolrwydd;
- a oes unrhyw ddulliau adrodd neu gwyno rydych chi'n ystyried eu bod yn llai effeithiol o ran canfod cynnwys sy'n niweidiol i blant, a sut rydych chi'n penderfynu ar hyn;
- y defnydd o fflagwyr dibynadwy[13] (ac os dylid rhoi blaenoriaeth i adroddiadau gan fflagwyr dibynadwy dros adroddiadau neu gwynion gan ddefnyddwyr); a
- y gost sydd ynghlwm wrth gynllunio a chynnal y mecanweithiau adrodd a/ neu gwynion hyn.

**C15. Pa gamau y mae gwasanaethau'n eu cymryd neu y dylent eu cymryd mewn ymateb i adroddiadau neu gwynion am gynnwys ar-lein sy'n niweidiol i blant (gan gynnwys cwynion gan blant)?**

Darparwch dystiolaeth berthnasol i esbonio eich ymateb i'r cwestiwn hwn.

## Dylunio a gweithredu'r gwasanaeth, gan gynnwys swyddogaethau ac algorithmau

A1.20 Mae'r dyletswyddau a nodir ym mharagraff 1.7 hefyd yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â chynllunio swyddogaethau, algorithmau a nodweddion eraill y gwasanaeth, a darparu mesurau i gynorthwyo defnyddwyr.

A1.21 Mae gennym ddiddordeb mewn deall agwedd gwasanaethau tuag at ddylunio fel ffordd o liniaru niwed i blant, gan gynnwys sut mae diogelwch yn cael ei ystyried wrth ddylunio cynnyrch a swyddogaethau. Mae'r Bil yn darparu nifer o enghreifftiau o 'swyddogaethau'.

[13] Mae 'fflagwyr dibynadwy' yn sefydliadau (fel cymdeithas sifil, asiantaethau'r llywodraeth, neu grwpiau perthnasol eraill) sydd ag arbenigedd penodol mewn niwed ar-lein. Mae'n bosib y bydd 'fflagwyr dibynadwy' yn ffurfio partneriaeth â llwyfannau i dynnu sylw'r llwyfannau yn uniongyrchol at gynnwys a allai fod yn groes i'r rheolau.

Ar gyfer gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr, mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gallu defnyddiwr i gael proffil dienw, i hoffi neu beidio â hoffi cynnwys, i rannu gwybodaeth am leoliad gyda defnyddwyr eraill, ac i anfon cynnwys ymlaen at ddefnyddwyr eraill. Enghraifft o swyddogaeth ar wasanaeth chwilio yw awto-gwblhau, lle bydd y peiriant chwilio yn rhagweld gweddill yr ymholiad y mae'r defnyddiwr wedi dechrau'i deipio.

A1.22 Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am agweddau ar ddylunio y gellid eu hystyried i helpu i atal niwed i blant. Gallai hyn gynnwys darparu nodweddion newydd i ddefnyddwyr sy'n blant (e.e. caniatáu rheolaeth dros yr hyn maen nhw'n dod ar ei draws), neu gyfyngu ar swyddogaethau (e.e. ei gwneud yn anoddach i ddod o hyd iddynt).

**C16. Pa swyddogaethau neu nodweddion sy'n bodoli ar hyn o bryd sydd wedi'u dylunio i atal neu liniaru risg neu effaith cynnwys sy'n niweidiol i blant? Mae A1.21 yn rhoi rhai enghreifftiau o swyddogaethau.**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- unrhyw swyddogaethau neu nodweddion sydd ar gael i wasanaethau, a all, yn eich barn chi, atal niwed i blant yn effeithiol; a
- unrhyw swyddogaethau neu nodweddion sy'n cael eu datblygu y gallai gwasanaethau ystyried eu rhoi ar waith i liniaru risg neu effaith cynnwys sy'n niweidiol i blant.

**C17. I ba raddau mae gwasanaeth yn mabwysiadu swyddogaethau neu nodweddion, sydd wedi'u cynllunio i liniaru risg neu effaith cynnwys sy'n niweidiol i blant ar y gwasanaeth hwnnw, neu y gall wneud hynny?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- pa reolaeth ddylai plant ei gael, neu y gallent ei gael, dros yr hyn sy'n cael ei ddangos neu'r cynnwys sy'n cael ei gyflwyno iddyn nhw, a faint o reolaeth y gallant ei gael;
- i ba raddau mae'r nodweddion neu'r swyddogaethau a nodwyd yn dibynnu ar dechnoleg arall – er enghraifft, dulliau sicrhau oedran, dilysu oedran neu ddilysu ID;
- y costau neu sbardunau cost sy'n gysylltiedig â datblygu'r nodweddion neu'r swyddogaethau hyn;
- a yw diogelwch plant yn cael ei ymgorffori yn y broses o ddylunio a datblygu'r cynnyrch;
- i ba raddau y rhoddir ystyriaeth i dystiolaeth am ymddygiad defnyddwyr sy'n blant wrth ddatblygu nodweddion neu swyddogaethau sydd wedi'u bwriadu i wella diogelwch defnyddwyr;
- pa dystiolaeth y gellir ei darparu sy'n ymwneud â mesurau, gan gynnwys tystiolaeth ynghylch effaith ac effeithiolrwydd y technegau hyn, o ran lleihau niwed i blant; a
- sut mae gwasanaethau'n asesu effaith mesurau lliniaru posibl ar breifatrwydd a rhyddid mynegiant defnyddwyr ac yn lleihau'r risg o gyfyngu'n ormodol.

**C18. Sut gall gwasanaethau gefnogi diogelwch a lles defnyddwyr sy'n blant yn y DU o ran cynnwys sy'n niweidiol iddyn nhw?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- a yw hyn yn cynnwys cymorth a ddarperir drwy'r llwyfan (e.e. cyfeirio at adnoddau) neu a ddylai gynnwys hynny;
- a yw hyn yn cynnwys cymorth oddi ar y llwyfan (e.e. ariannu neu hwyluso rhaglenni) neu a ddylai gynnwys hynny;
- sut mae'r ymyriadau hyn yn cael eu gwreiddio, neu a ddylid eu gwreiddio, yn nhaith y defnyddiwr drwy'r ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio;
- pa mor effeithiol yw'r mathau hyn o ymyriadau, o ran lleihau niwed ac effaith cynnwys anghyfreithlon ar ddefnyddwyr?; a
- beth yw'r costau sydd ynghlwm wrth roi'r mesurau cymorth rydych chi wedi'u disgrifio ar waith?

**C19. Gan gyfeirio at gynnwys sy'n niweidiol i blant, sut gall gwasanaeth liniaru unrhyw risgiau i blant drwy ddylunio algorithmau sy'n cefnogi gweithrediad y gwasanaeth (e.e. peiriannau chwilio, neu systemau cymdeithasol ac argymell cynnwys)?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- os yw'n wahanol i'r broses asesu risg a amlinellir mewn ymateb i C8, sut mae gwasanaethau'n asesu'r risg i blant o algorithmau sy'n ganolog i swyddogaeth y gwasanaeth;
- pa fesurau diogelwch sydd gan wasanaethau ar waith i liniaru'r risgiau a berir gan algorithmau (e.e. eu profi cyn dechrau eu defnyddio, a monitro eu perfformiad mewn sefyllfaoedd go iawn);
- pa fesurau diogelwch sydd gan wasanaethau ar waith i liniaru'r risgiau a berir yn benodol gan ddefnyddio systemau argymell (e.e. rhoi rheolaeth i ddefnyddwyr dros yr hyn a ddangosir iddynt, megis drwy hidlyddion allweddeiriau);
- gofynion ychwanegol ar gyfer diogelwch mewn algorithmau (e.e. categoreiddio cynnwys yn gywir);
- y costau sydd ynghlwm wrth roi'r mesurau diogelu hyn ar waith. Os nad oes costau penodol, rhowch syniad o'r prif sbardunau cost;
- sut gall gwasanaethau fesur effeithiolrwydd y mesurau diogelu hyn, o ran lleihau niwed i ddefnyddwyr;
- pa wybodaeth all gwasanaethau ddarparu i ddangos effeithiolrwydd mesurau diogelu o'r fath; a
- sut gall gwasanaethau asesu effaith y mesurau diogelwch hyn ar breifatrwydd defnyddwyr a lleihau'r risg o gyfyngu'n ormodol.

## Safoni

A1.23 O dan eu dyletswyddau a nodir yn Rhan 3 o'r Bil, mae'n rhaid i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant fodloni gofynion penodol mewn perthynas â chynnwys 'prif flaenoriaeth', 'cynnwys â blaenoriaeth' a chynnwys heb ei ddynodi sy'n niweidiol i blant. Mewn perthynas â chynnwys 'prif flaenoriaeth', mae'n rhaid i wasanaethau weithredu'r gwasanaeth gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u dylunio i atal plant o unrhyw oed rhag dod ar ei draws drwy'r gwasanaeth. Mewn perthynas â 'chynnwys â blaenoriaeth' a chynnwys arall sy'n niweidiol i blant, rhaid i wasanaethau weithredu gwasanaeth gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u dylunio i amddiffyn plant mewn grwpiau oedran y bernir bod perygl i'r cynnwys hwn fod yn niweidiol iddynt rhag dod ar ei draws drwy'r gwasanaeth. Wrth benderfynu beth sy'n gymesur, dylai gwasanaethau ystyried canfyddiadau'r asesiad risg diweddaraf i blant, yn ogystal â maint a chapasiti'r gwasanaeth fel ffactorau perthnasol. I fodloni'r gofynion hyn, gall gwasanaethau gynnwys defnyddio dulliau safoni cynnwys (gan gynnwys systemau a ddefnyddir gan wasanaethau chwilio i ddadansoddi cynnwys y gellir chwilio amdano).

**C20. A oes modd gwneud gwelliannau i'r trefniadau safoni cynnwys er mwyn diogelu plant yn well, heb gyfyngu'n ormodol ar weithgarwch defnyddwyr? Os oes, beth?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth berthnasol i esbonio:

- gwelliannau o ran diogelwch defnyddwyr a hawliau defnyddwyr (e.e. rhyddid mynegiant), yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud â chostau posibl neu sbardunau cost;
- tystiolaeth o effeithiolrwydd systemau safoni presennol; ac
- enghreifftiau lle mae prosesau safoni cynnwys perthnasol yn arbennig o dda neu wael.

**C21. Pa systemau safoni awtomatig, neu rannol awtomatig, sydd ar gael ar hyn o bryd (neu sydd wrthi'n cael eu datblygu) ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant?**

Yn benodol, ystyriwch y canlynol:

- addasrwydd systemau safoni awtomatig (neu rai rhannol awtomatig) i adnabod cynnwys sy'n niweidiol i blant;
- a yw systemau safoni awtomatig yn amrywio yn ôl y math o gynnwys (e.e. testun, delwedd neu fideo);
- sut mae systemau safoni cynnwys awtomatig mewnol yn cael eu datblygu ac (yn achos technoleg sy'n defnyddio AI neu ddysgu peirianyddol) yn cael eu hyfforddi neu eu profi;
- sut mae cael gafael ar ddata a ddefnyddir i ddatblygu, hyfforddi, profi neu weithredu systemau safoni cynnwys ac a yw'n cynrychioli'r senario go iawn a fwriedir;
- ystod neu ansawdd darparwyr systemau safoni cynnwys trydydd parti sydd ar gael yn y DU;
- pa mor effeithiol yw systemau safoni cynnwys yn awtomatig, o ran adnabod cynnwys targed sy'n niweidiol i blant sy'n ddefnyddwyr, a sut y gall hyn amrywio yn ôl y niwed;
- pa dystiolaeth sydd ar gael i asesu cywirdeb technegau safoni awtomatig (e.e. ynghylch amlder canlyniadau positif/negyddol anghywir);
- sut mae camau'n cael eu cymryd mewn perthynas â chynnwys a nodir drwy ddulliau awtomatig fel deunydd a allai fod yn niweidiol i blant (e.e. gweithredu awtomatig, gweithredu gan bobl, neu adolygiad pellach);
- pa fesurau diogelu sy'n cael eu defnyddio i liniaru effeithiau andwyol safoni cynnwys yn awtomatig, e.e. ar breifatrwydd a/neu ryddid mynegiant;
- a fyddai rhai mathau o dechnegau safoni awtomatig yn fwy addas ar gyfer rhai mathau o gynnwys neu niwed a pham; a
- pa rwystrau a chostau sydd ynghlwm â defnyddio'r systemau safoni awtomatig hyn.

**C22. Sut mae safonwyr dynol yn cael eu defnyddio i ganfod ac asesu cynnwys sy'n niweidiol i blant?**

Yn benodol, ystyriwch y canlynol:

- rôl arferol safoni dynol effeithiol;
- sut i bennu lefel y safoni dynol sydd ei angen ar lwyfan, gan gynnwys yn ôl y math o gynnwys niweidiol;[14]
- a yw safonwyr yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth, yn cael eu darparu'n allanol, neu gan wirfoddolwyr;
- a yw safonwyr yn cael eu harchwilio, a sut; ac
- y math o sylw a ddarperir gan safonwyr (e.e. dros y penwythnos neu dros nos, amser y DU).

**C23. Pa hyfforddiant a chefnogaeth sy'n cael eu rhoi, neu y dylid eu rhoi, i safonwyr?**

Yn benodol, ystyriwch y canlynol:

- a yw rhai safonwyr yn arbenigo mewn rhai mathau o niwed neu faterion lleferydd;
- a yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu neu ei ddiweddaru, ac amlder hyn; ac
- a yw safonwyr yn cael eu hyfforddi i adnabod cynnwys sy'n niweidiol i blant.

**C24. Sut mae safonwyr dynol a systemau awtomatig yn gweithio gyda'i gilydd, a beth yw eu graddfa gymharol? Sut ddylai gwasanaethau ddiogelu yn erbyn rhagfarn yn y system awtomatig?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- y costau sydd ynghlwm wrth yr arferion hyn. Yn absenoldeb costau penodol, rhowch syniad o sbardunau cost (e.e. lleoliad safonwyr) a ffigurau perthnasol eraill (e.e. nifer y safonwyr a gyflogir, faint o eitemau mae'r llwyfan yn eu safoni bob dydd); a
- sut gall gwasanaethau asesu cywirdeb a chysondeb timau safoni dynol.

## Mesurau lliniaru eraill i amddiffyn plant

A1.24 Yn ogystal â safoni cynnwys, mae un o'r dyletswyddau diogelwch plant yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u dylunio i atal plant o unrhyw oed rhag dod ar draws cynnwys prif flaenoriaeth sy'n niweidiol i blant. Ar wahân i sicrhau oedran sy'n cael sylw yng nghwestiynau 4 a 5, rydyn ni'n gofyn am fewnbwn ynghylch pa fesurau lliniaru eraill allai fod yn gymesur ac yn effeithiol i atal plant rhag dod ar draws cynnwys prif flaenoriaeth.

[14] Gweler A.1.2 i A1.3 am ragor o wybodaeth am y rhestr ddangosol o niwed i blant.

**C25. Ym mha achosion y mae cynnwys sy'n niweidiol i blant, sydd yn groes i delerau ac amodau, yn cael ei dynnu o wasanaeth neu'r rhan o wasanaeth y gall plant ei defnyddio?**

Amlinellwch yr amgylchiadau lle mae cynnwys sy'n niweidiol i blant yn cael ei dynnu i lawr a sut y gallai hyn amrywio yn ôl y math o gynnwys niweidiol. Mae cynnwys prif flaenoriaeth a chynnwys â blaenoriaeth yn cael eu hamlinellu yn A1.2 i A1.3.

**C26. Pa fesurau lliniaru eraill sydd gan wasanaethau ar hyn o bryd i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol?**

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- mesurau lliniaru sydd ar gael i atal plant rhag cael gafael ar gynnwys prif flaenoriaeth;
- mesurau lliniaru sydd ar gael i amddiffyn plant rhag cael gafael ar gynnwys â blaenoriaeth;
- pa fathau o wasanaethau (e.e. cyfryngau cymdeithasol, chwilio, gemau ac ati) y mae'r mesurau lliniaru sydd ar gael yn addas ar eu cyfer;
- costau rhoi mesurau lliniaru ar waith;
- os yw'n berthnasol, y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â mesurau lliniaru;
- os yw'n berthnasol, unrhyw rwystrau nad ydynt yn ymwneud â chostau i roi mesurau lliniaru ar waith;
- pa mor effeithiol yw'r mesurau lliniaru sydd ar waith gan lwyfannau ar hyn o bryd;
- sut mae 'nodweddion eraill' (ochr yn ochr â dyluniad swyddogaethau ac algorithmau) wedi cael eu dylunio i sicrhau diogelwch i blant; a
- pa fesurau lliniaru, os o gwbl, sy'n ymarferol ond efallai nad ydynt ar gael ar hyn o bryd ar wasanaethau sy'n debygol o ddenu plant.

**C27. Lle mae plant yn ceisio osgoi mesurau lliniaru sydd ar waith ar wasanaeth, pa systemau a phrosesau eraill all gwasanaeth eu rhoi ar waith i amddiffyn plant?**

Yma, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn osgoi mesurau nad ydynt yn dechnolegau sicrhau oedran, y gofynnwn amdanynt yn C5. Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- y ffyrdd y gall rhai defnyddwyr sy'n blant geisio osgoi mesurau lliniaru a roddwyd ar waith i'w hamddiffyn rhag cynnwys niweidiol;
- y ffyrdd y gall gwasanaethau fynd i'r afael â'r rhain, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys prif flaenoriaeth, y dylid atal plant rhag ei ddefnyddio; ac
- enghreifftiau o arferion gorau o ran sut i atal plant rhag dod ar draws cynnwys prif flaenoriaeth.

## Arall

**C28. Ar wahân i'r rhai sy'n cael eu trafod uchod yn y ddogfen hon, ydych chi'n ymwybodol o fesurau eraill sydd ar gael i liniaru'r risg o niwed o gynnwys sy'n niweidiol i blant, a'i effaith?**

Byddai gennym ddiddordeb mewn unrhyw dystiolaeth y gallwch ei darparu am effeithiolrwydd y mesurau hynny o ran lleihau niwed i ddefnyddwyr sy'n blant, y gost a'r effaith ar hawliau defnyddwyr a phrofiad defnyddwyr.

# A2. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

## Sut mae ymateb

A2.1 Hoffai Ofcom gael ymatebion erbyn **5pm ar 21 Mawrth 2023.**

A2.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr oddi ar https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/call-for-evidence-second-phase-of-online-safety-regulation. Gallwch ddychwelyd y ffurflen hon drwy e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad a ddarperir yn y ffurflen ymateb.

A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall ategol, a fyddech cystal â'i anfon dros yr e-bost at os-cfe@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. Mae'r cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer y cais hwn am dystiolaeth yn unig, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 21 Ebrill 2023.

A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Online Safety Call for Evidence / Cais am Dystiolaeth Diogelwch Ar-lein
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch fideo ohonoch chi'n llofnodi eich ymateb (hyd at bum munud); neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu lwyfan cynnal fideos arall), ac anfon dolen atom ni.

A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A2.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A2.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn y cais am dystiolaeth os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A2.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn Atodiad 1 y ddogfen hon. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro pam rydych yn coleddu'ch barn a darparu tystiolaeth ategol.

A2.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn y ddogfen hon, cysylltwch â'r tîm Diogelwch Ar-lein drwy anfon neges e-bost i os-cfe@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A2.11 Er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom.

A2.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.

A2.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw rhan o ymateb neu'r ymateb cyfan yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu, ond weithiau efallai y bydd angen i ni ddatgelu ymatebion i gyflawni rhai rhwymedigaethau cyfreithiol penodol (e.e. pan fydd yn gymesur ac yn deg gwneud hynny er mwyn galluogi ymgynghori'n briodol, neu os cawn orchymyn i'w datgelu). Wrth ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth, sylwch hefyd nad oes angen gwybodaeth arnom a allai ddatgelu manylion unigolion y gellid honni eu bod wedi cyflawni niwed.

A2.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb nad yw'n gyfrinachol ag adran berthnasol y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan. Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion post, a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.

A2.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio. Edrychwch hefyd ar ein Datganiad Preifatrwydd.

## Y diweddaraf am gyhoeddiadau Ofcom

A2.16 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

# A3. Dalen gyflwyno ymateb

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl y cais am dystiolaeth: Ail gam rheoleiddio diogelwch ar-lein: Amddiffyn plant

At (swyddog cyswllt yn Ofcom): **Tîm Diogelwch Ar-lein, OS-CFE@ofcom.org.uk**

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

______________________________________________________________________________________

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw eich sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

____________________________________________

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i gais Ofcom am dystiolaeth y gall Ofcom ei chyhoeddi yn ddarostyngedig i'r adran am gyfrinachedd uchod. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall efallai y bydd angen i Ofcom ddatgelu peth o'r wybodaeth sydd wedi'i marcio'n gyfrinachol pan fydd yn gymesur ac yn deg gwneud hynny er mwyn galluogi ymgynghori'n briodol, neu os bydd Ofcom yn cael gorchymyn i'w datgelu. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Nod Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd; os yw’ch ymateb yn un nad yw’n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu’n rhannol), ac y byddai’n well gennych i ni beidio â chyhoeddi’ch ymateb nes bydd y cyfnod ymateb wedi dod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi papur)